

Cofion

- Cofiwn am y teuluoedd yn ein plith sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Dymunwn nodded a nerth iddynt a gweddiwn y byddant yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at y cleifion. Cofiwn yn arbennig am Stan Roberts (Llanfair) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd; Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun; a Morfudd Williams (Henllan) a Gwenfyl Williams (Tanyfron) yn yr Inffirmari. Treuliodd Ifan Glyn Williams (Llansannan) ychydig amser yn yr ysbyty hefyd ond mae'n dda clywed ei fod o'n well erbyn hyn. Cofiwn amdanynt oll yn ein gweddiâu a gofynnwn i Dduw gysgodi drostynt. Parhawn i gofio am y cleifion eraill hefyd a gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan.
- Cofiwn hefyd y rhai hynny sy'n hiraethu am anwyliaid y Nadolig hwn. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.

Ymdeol

Yn y cyfarfod o Flaenoriaid a Diaconiaid y Fro nos Lun, cyhoeddodd Aneurin ei fwriad i ymdeol (yn gynnar!) ddiwedd mis Awst 2016 o'i swydd fel Gweinidog. Rydym wedi hysbysu'r Henaduriaeth yr wythnos hon o fwriad Aneurin, sy'n gadael amser digonol i'r holl broses swyddogol fynd rhagddo. Rwy'n siŵr fod pawb ohonom yn gwerthfawrogi'r weinidogaeth arbennig y mae Aneurin wedi ei roi i ni dros y blynyddoedd diwethaf – fe ddaw cyfle i ddiolch iddo yn swyddogol am ei wasanaeth yn y Gwasanaeth Gollwng pan ddaw'r amser i wneud hynny.

Y Rhifyn Nesaf

Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 3ydd**.

I ddod

- **CYFARFOD CYMDEITHAS Y BEIBL** yn Ffestri Llansannan nos Fawrth, Ionawr 5ed am 7.30 pryd byddwn yn trafod amrywiol gyfieithiadau o'r Beibl a rhyfeddu at ddawn y cyfieithydd.
- **OEDFA DECHRAU'R FLWYDDYN** yng Nghapel Llanefydd nos Fercher, Ionawr 6ed am 7.00 gyda'r Parch. Dewi Tudur yn pregethu.
- **DIWRNOD DYNION** yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Ionawr 16eg rhwng 10.00 a 4.30 yng nghwmni Mike Adams, Llanelli.

*"Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr,
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd." (Luc 2:11)*

Darlleniad Nesaf

Ioan 1: 35-42 (BCND tud.100 / BCN: tud.92)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Rhagfyr 2015

Darlleniad y Dydd

Mathew 2:1-6

(BCND tud.1 / BCN: tud.1)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon a phartïon y dydd! Mae'n ddiwrnod i ddathlu a chael hwyl wrth gofio gymaint yw cariad Duw tuag atom a pha mor rhyfeddol oedd y rhodd a gawsom gan Dduw pan roddodd Iesu Grist i ni! Diolch i bawb am eu cyfraniad i'r oedfa garolau nos Sul dwetha ac am neges Huw i ni – fod y rhodd mwyaf gwerthfawr o'r holl roddion a gawn ni y Nadolig yma yn yr 'uniganedig Fab' a ddaeth i'w fyd y Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlehem. 'Canys felly carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab' yw'r geiriau cyfarwydd (Ioan 3:16) ac yna mae Ioan yn esbonio pwrpas mawr yr ymgnawdoliad, sef: 'fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo Ef ond caffael ohono fywyd tragwyddol'. Mawredd y Person a mawredd ei waith sy'n parhau i greu 'synnu fyth ar synnu yn nhrigolion gwlad goleuni.' (CFF 356) Beth am i ni ofyn i Dduw am ei Ysbryd i'n codi i ryfeddu at berson a gwaith Iesu o'r newydd heddiw ac am gael ysbryd rhyfeddod at yr hyn a wnaeth Duw wrth iddo ddangos mor glir cymaint yw ei gariad tuag atom?

Mae'r darlleniad heddiw yn cyfeirio ein meddyliau at hanes y doethion a ddaeth i chwilio am Frenin newydd anedig. Y lle olaf y byddent yn disgwyl dod o hyd iddo oedd mewn preseb mewn stabl tlawd ym Methlehem, ond felly roedd hi! Mae Duw i'w ganfod weithiau yn y llefydd mwyaf diarffordd ac annisgwyl! Ond yr hyn sy'n wir am stori'r doethion ydi mai yn unol â'i air y mae Duw yn datguddio'i hun i ni. Roedd cynghorwyr Iddewig y brenin Herod yn iawn pan ddaru nhw ddyfynnu'r adnod o'r Hen Destament a oedd yn cyfeirio at Bethlehem fel man geni Iesu'r brenin. (Micha 5:2) Felly medrwn ninnau gael hyd i fwriadau Duw mewn ffordd sicr iawn wrth ddarllen y Beibl ac wrth chwilio am Iesu yn y Beibl. Dyma'r ffordd mwyaf sicr a'r ffordd y mae Duw yn ei defnyddio amlaf pan mae yn galw pobl ato. Wrth i'n henaid chwilio am Dduw mae Ysbryd Duw yn goleuo Gair Duw er mwyn i ni gael ffordd ddiogel a chywir i ddod i adnabod Iesu. Fedrwn ni ddim ei gael yn ein nerth ein hunain neu wrth bwysu ar ein dychymyg ein hunain – geiriau'r Beibl ydi'r ffordd sicraf i ni o bell ffordd.

Felly eto eleni, 'ynghanol sŵn y dathlu' ga i hefyd eich hannog i ddarllen y Beibl pan gewch funud fach dawel yn rhywle! Darllen penodau cyntaf efengyl Mathew ac efengyl Luc, ac un Ioan hefyd i ryfeddu at yr holl baratoi a fu, a'r cyflawniad wrth i'r 'Gair ddod yn gnawd.' Wrth wneud hynny byddwn yn derbyn o oleuni Ysbryd Duw ac yn cael datguddiad o wir ystyr yr Ŵyl!

A Nadolig Llawn i chi bob un a diolch ichi am bob cymdeithas yn yr Arglwydd dros y flwyddyn.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 20^{fed} • Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno.
- Mawrth – 22^{ain} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Gwener – 25^{ain} • **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel Saron am 9.30.
- Sul nesaf – 27^{ain} • **Oedfa i'r Fro** yng Nghapel Cefn Berain am 11.00 gyda Celfyn Williams yn arwain a Rhodri Glyn yn pregethu.
- Llun – 28^{ain} • **Taith Gerdded i'r Fro**. Pawb i gyfarfod yn Groes am 10.30. Dewch ag esgidiau cerdded addas a chinio hefo chi – bydd paned ar gael i bawb yn y Ffestri.
- Mawrth – 29^{ain} • **Swper Nadolig y Cyfarfodydd Ganol Wythnos / Oedfa'r Fro** yn Ffestri Llansannan am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 21ain** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- 2016**
Sul – 3^{ydd} • **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan am 6.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 20^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00 a bydd Parti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.
- 2016**
Sul – 3^{ydd} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30.

Llansannan

- Sul yma – 20^{fed} Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Ffestri.
- Llun – 21^{ain} "AWN I FETHLEM" – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7.30.
- Gwener – 25^{ain} Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Bethania am 7.00 bore Nadolig.
- 2016**
Sul – 3^{ydd} Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 20^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Saron am 11.00. Bydd y Parti Nadolig ar ôl y gwasanaeth a disgwylir y bydd Siôn Corn yn ymweld. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 11.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Ffestri.
- 2016**
Sul – 3^{ydd} Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 20^{fed} Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- 2016**
Sul – 3^{ydd} Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 20^{fed} Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00 pryd y gwneir casgliad arbennig i Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Ffestri.
- Sul nesaf – 27^{ain} Bydd Gwasanaeth Carolau Undebol yng Nghapel Henllan am 11.00 a bydd y casgliad hwn hefyd yn mynd i Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.
- 2016**
Sul – 3^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 20^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn y capel am 6.30. Yn yr un modd, cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn.
- Iau – 24^{ain} Plygain noswyl y Nadolig dan arweiniad Aneurin yng Nghapel Llanefydd am 7.00.
- Mercher – 30^{ain} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- 2016**
Sul – 3^{ydd} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📠 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair **erbyn 9.00 **NOS FERCHER****, Rhagfyr 30ain, os gwelwch yn dda. **Bydd y pecynnau yn barod i'w casglu fore Iau, Rhagfyr 31ain.**

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.